**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6**

**Adroddiad ar Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2023**

**Enw y Cyngor Tref neu Gymuned: Cyngor Cymuned y Ferwig**

**Cyflwyniad a'r Cyd-destun**

Mae Cyngor Cymuned y Ferwig yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i'w gymuned leol sy'n cael effaith ar fioamrywiaeth. Ymhlith y rhain mae:

- Cyfrifoldeb am nifer o fannau gwyrdd, sy'n cynnwys parciau chwarae, ymylon ffyrdd.
- Cynlluniau i rhoi paneli solar ar ystafelloedd newid ir gymuned i ddefnyddio wrth gynhesu dwr ir ystafell cyfarfodydd drws nesaf.
- Hybu iechyd yn y gymuned trwy arwyddion ac

Ceisiwn hyrwyddo cynaliadwyedd a bioamrywiaeth lle bo'n bosibl.

Rydym yn gwasanaethu tua 2,000 o etholwyr. Y praesept ar gyfer 2022-23 yw £24,000.

**Adroddiad Gweithredu**

| Camau gweithredu i: | | Wedi eu monitro gan: |
|---|---|---|
| Cynnwys ystyriaethau bioamrywiaeth yn ein prosesau penderfynu a chaffael | • Caiff bioamrywiaeth ei hystyried mewn trafodaethau am geisiadau cynllunio ac os oes pryder, anfonir sylwadau at y Cyngor Sir<br>• Wedi trafod a holi'r Cyngor Sir am fynd ati i drawsnewid man gwyrdd gyda blodau gwyllt | |
| Codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd | • Mae'r trigolion lleol wedi mynd ati i gynnal mannau gwyrdd trwy gasglu sbwriel<br>• Plant yr ysgol leol wedi'u gofyn i greu posteri baw cwn er mwyn cynnal amwynder yr ardal | Nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau |

| | | |
|---|---|---|
| | • Cynghorwyr yn cynnal sesiynau casglu sbwriel yn pentref.<br><br>• Rhoi mesurau taclo cyflymder traffig fydd yn arbed damweiniau a llygredd | Aeolodau or cyhoedd yn ymuno yn y sesiynau<br><br>Grwp o gwirfoddolwyr yn y pentref yn rhedeg sesiynau ymwybyddiaeth cyflymder. |
| Diogelu'r prif rywogaethau a chynefinoedd | • Wedi cyfrannu at reoli tir yn gyfrifol trwy dorri i lawr ar dorri glaswellt er mwyn diogelu rhywogaethau a chynefinoedd<br><br>• Ni fu unrhyw effeithiau andwyol ar rywogaethau gwarchodedig yn sgil unrhyw weithredoedd cynnal a chadw tir | |
| Adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth | • Mae'r coed a blannwyd ger y cae pêl-droed yn cynnig lloches i fywyd gwyllt.<br><br>• Yn sgil torri glaswellt yn llai aml, rhoddir anogaeth i blanhigion dyfu, yn enwedig rhai sy'n denu paill. Gyda hyn, mae gobaith am loches i famaliaid bach | Posibilrwydd fod nifer y cynefinoedd wedi cynyddu. |
| Mynd i'r afael ag elfennau negyddol: er enghraifft, defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaetau goresgynnol. | • Prynir nwyddau swyddfa fel papur, cynhyrchion eraill ac ati gan gwmnïau lleol sydd o fewn 3 milltir i swyddfa'r clerc.<br><br>• Anfonir gwastraff glaswellt at waith compostio lleol i'w ailddefnyddio.<br><br>• Wrth rhoi paneli solar ar ystafell newid yn y pentref fydd trydan yn cael i arbed ac hefyd dwr poeth ar gael i defnyddwyr yr | Gostyngiad yn biliau trydan. |

| | | |
|---|---|---|
| | ystafelloedd newid ar neuadd gyfarfod drws nesaf. | |
| Defnyddio, gwella a rhannu tystiolaeth | • | |
| Cefnogi capasiti ac/neu sefydliadau eraill | • Bydd posteri atal baw cwn a ddyluniwyd gan blant yr ysgol yn cael eu gosod hwnt ac yma ym mhentref Penyparc. Gobeithio byddant yn ymfalchïo o'u gweld. | |
| **Arolwg o ddyletswydd Adran 6** | | |
| Yn 2023-24 a thu hwnt, bydd y Cyngor yn edrych i barhau gyda'i arferion cyfredol, yn ogystal ag ymchwilio i gyfleoedd i wella bioamrywiaeth yr ardal trwy weithio gyda'r gymuned leol.<br><br>Mae'r Cyngor Cymuned yn cyfarfod unwaith y mis a bydd bioamrywiaeth yr ardal yn cael ei monitro yn ôl yr angen ac wrth i gyfleoedd godi. Nid oes dyddiad penodedig wedi'i osod i adolygu ei gynlluniau ar gyfer dyletswydd Adran 6. | | |